




tud 3	tud 4	tud 12	Atodiad
Pobl a Phethe	Rali CFFl	Gruff ar y ffordd	Ysgol Llangynfelyn

CANMOLIAETH UCHEL

Yn ystod tymor y Gwanwyn ymwelodd arolygwyr Estyn â Chylch Meithrin ac ysgol gynradd Tal-y-bont ac yn ddiweddar cyhoeddwyd yr adroddiadau ar y naill a'r llall. Mae'r ddau adroddiad yn rai canmoladwy iawn.

Yn ôl yr arolygwyr, mae perfformiad presennol y Cylch Meithrin yn dda. Ym marn yr arolygwyr, mae rhan fwyaf y plant yn gwneud cynnydd da a bron bob plentyn yn dangos agweddau da tuag at ddysgu. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn ymddwyn yn gwrtais ac yn ystyriol o eraill. Mae yna berthynas waith dda rhwng y staff a'r plant gyda'r staff yn darparu ystod eang o weithgareddau ysgogol. Gwelwyd fod y 'gymuned yn un hapus a chynhwysol sy'n rhoi blaenoriaeth uchel i les a diogelwch y plant'.

Yn ôl y tîm arolygu, mae arweinydd y Cylch yn cydweithio'n effeithiol ac yn ymroddedig i osod a sicrhau safonau uchel. Disgrifiwyd y pwyllgor rheoli fel un ymroddedig sy'n cyflawni ei gyfrifoldebau yn gydwybodol. Yn bwysicaf oll, gwelwyd y Cylch fel un hapus lle y gwerthfawrogi'r ymdrechion a galluoedd pob plentyn.

Yn yr un modd canmoliaeth sydd i'r ysgol gynradd. Mae'r adroddiad yn nodi bod perfformiad yr ysgol yn dda 'gyda bron pob un

o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu ac yn cyflawni'n dda'. Gwelodd yr arolygwyr bod rhan helaeth y disgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu'n ddarllenwyr da a bod safon llawysgrifen a chyflwyniad gwaith ysgrifenedig y plant yn daclus ac yn drefnus. Sonnir bod medrau mathemategol rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn gadarn.

Mae canmoliaeth hefyd i waith yr athrawon. Gwelwyd bod ansawdd yr addysgu yn dda, gyda rhai nodweddion rhagorol.

Yn ôl yr arolygwyr mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn defnyddio'r Gymraeg yn gyson ac yn effeithiol gyda'r athrawon yn hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o iaith a diwylliant Cymru yn gadarn. Mae'r dimensiwn Cymreig yn amlwg yng ngweithgareddau'r ysgol ac mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o ymwelwyr, fel Bardd Plant Cymru ac artistiaid lleol i godi ymwybyddiaeth disgyblion o'u Cymreictod. Canmolwyd yr ystod dda o weithgareddau allgyrsiol sydd yn cael eu cynnig i'r plant. (Mae darllenwyr Papur Pawb yn hen gyfarwydd a darllen adroddiadau a gweld lluniau o'r profiadau amrywiol hyn o fis i fis). Roedd yr arolygwyr o'r farn bod y cysylltiadau niferus â'r gymuned leol yn cael dylanwad buddiol ar brofiadau dysgu'r plant a'u hymwybyddiaeth o'u cymuned.

Sylw pellach oedd bod bron pob disgybl yn mwynhau dod i'r ysgol ac yn teimlo'n ddiogel. 'Mae'r ysgol yn gymuned hapus a chroesawgar, lle mae'r oedolion a'r disgyblion yn ymdrin â'i gilydd gyda pharch a gofal'. Yn ôl yr arolygwyr, mae hyn yn gwneud cyfraniad sylweddol at greu ethos sy'n hyrwyddo dysgu effeithiol lle nad oes yr un disgybl yn dioddef oherwydd anfantais.

Maent o'r farn bod gan y pennaeth weledigaeth glir a disgyrddiad uchel a bod y rhain yn cael eu rhannu'n llwyddiannus gyda'r staff a'r llywodraethwyr. Mae ymdeimlad cryf o waith tîm o fewn yr ysgol ac mae pawb yn cydweithio'n effeithiol i godi safonau a sicrhau lles disgyblion. Gwelwyd bod y llywodraethwyr yn gefnogol iawn i waith yr ysgol ac yn cyflawni eu cyfrifoldebau'n fedrus. Mae'r cyngor ysgol hefyd yn weithgar a chydwybodol, yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod safbwyntiau cyd-ddisgyblion ac i gynllunio gweithgareddau amrywiol, fel casglu arian tuag at elusennau penodol.

Ac yn olaf, mae'r arolygwyr yn cydnabod y bartneriaeth gadarn rhwng yr ysgol â'r rhieni a'r ffaith eu bod nhw yn gefnogol i'r ysgol – cefnogaeth sy'n cynnwys prynu offer fel tabledi electronig ac adnoddau i'r Cyfnod Sylfaen a chyfrannu at ymweliadau sy'n cyfoethogi profiadau'r plant.

Mewn ymateb i'r adroddiad dywedodd Hefin Jones, Pennaeth yr Ysgol

Rwy'n hapus iawn gyda chanfyddiad yr arolygwyr o'r ysgol. Mae'r sylwadau cadarnhaol am y cydweithio effeithiol sy'n bodoli yn yr ysgol yn adlewyrchiad teg o waith caled y staff, y llywodraethwyr a'r rhieni i sicrhau'r ddarpariaeth orau ar gyfer y plant. Mae'n galonogol hefyd fod agweddau o'r addysgu a rhai o'n gweithgareddau i hybu agweddau lles yn cael eu barnu'n rhagorol.

Llongyfarchiadau mawr i bawb.



Aelod o'r heddlu yn ymweld â'r ysgol.

Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol:	Gwyn Jenkins Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion golygydd@papurpawb.com Cysyllter â golygyddion y mis	(01970) 832560
Tynnu lluniau:		
Tal-y-bont:	GOHEBYDDION LLEOL Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont Eirlys Jones, 91 Maes-y-deri, Tal-y-bont Dilys Morgan, Alltgoch, Tal-y-bont Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch Siân Saunders, Is-y-coed, Tre Taliesin Janet Evans, Cefngweiriog, Tre'r-ddôl Lona Mason, Maes y Coed, Ffwrnais	832592 832438 832483 832498 832566 832230 (01654) 781260 (01654) 781324
Maes-y-deri:		
Parsel Henlys:		
Bont-goch:		
Tre Taliesin:		
Tre'r-ddôl:		
Eglwysfach/Ffwrnais:		
Cadeirydd:	CYMDEITHAS PAPUR PAWB Helen Jones, Gellimanwydd, Tal-y-bont	832760
Is-gadeirydd:	Gervyn Jones, Dôl Pistyll, Tal-y-bont	832203
Ysgrifennydd:	Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont	832344
Trysorydd:	Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont	832093
Tanysgrifiadau:	Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont	832448
Hysbysebion:	Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont	832076
Plygu'r Papur:	Gwenllian Parry-Jones; Beti Jenkins	
Dosbarthwyr:	John Leeding; Lynn Ebenezer; Gwenllian Parry-Jones; Carys Briddon	

Cyhoeddwyd gan GYMDEITHAS PAPUR PAWB. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.

Llythyr

Annwyl ffrindiau,

Y Nadolig eleni fe fydd fy nghofiant i'r 'melys lais' ei hun, David Lloyd, yn y siopau ddechrau Rhagfyr. Dwi'n gobeithio teithio eto o ardal i ardal yn siarad am 'y tenor â'r deigr yn ei lais' rhwng Medi 2016 a Mai 2017. Wrth gwrs, fe gawn ni wrando ar y llais yn ogystal. "Mae hi'n swnio'n noson ddifrif, Hywel", fe'ch clywaf yn dweud, "ond faint fydd y gost?". Gan fod y noson yn rhan o gynllun Awdur ar Daith, mae nawdd ar gael i fyny at 50%. Cost y noson yw £200 sy'n cynnwys costau teithio o Gaerdydd.

Dyma'r drefn. Os ewch chi at wefan Llennyddiaeth Cymru, Awdur ar daith fe welwch sut mae gwneud cais am y nawdd. Awgrymir eich bod yn gwneud hyn mor fuan a phosib.

Fe fyddwch angen manylion amdanaf. Enw: Hywel Gwynfryn, 53 Heol Wingfield, Eglwysnewydd, Caerdydd. Cyfeiriad ebost: hywel.gwynfryn@bbc.co.uk. Teitl y Noson: Melys lais David Lloyd. Rhif cyswllt (rhag ofn) 07968889357.

Y drefn wedyn ydi fod siec yn cael ei thalu ar y noson am £200 (sy'n cynnwys costau teithio), ac yna fe ddaw arian y nawdd i chi ymhen yr wythnos.

Gobeithio y cawn ni gyfarfod yn swm melys lais David Lloyd yn canu Hyder, Lausanne, Sul y Blodau a Bugail Aberdyfi.

Yn gywir

Hywel Gwynfryn

Diwrnod Agored / Open Day

Dewch i ddathlu 45 mlynedd o addysg yn Ysgol Gynradd Ulandysul. Cynhelir diwrnod agored dydded Sadwrn, Mehefin 25af rhwng 11yb a 2yp. Croeso cywrs i gyn-ddisgyblion, a staff, rhieni, y gymuned a ffrindiau'r ysgol.

25/06/16

An open day will be held to celebrate 45 years of education at Ulandysul Primary School on Saturday, June 25th between 11am and 2pm. A warm welcome to past & present pupils and staff, friends, parents and members of the community.

- Arddangosfeydd
- Barbeciw
- Te o Chacennau
- Cyflwyniadau Hen Luniau
- Taith o gumpas
- Adloniant gan y disgyblion
- Cerdoriaeth
- Displays
- Barbeque
- Tea and Cakes
- Photo PowerPoint
- A tour of the school
- Entertainment by pupils
- Music

Dyddiadur

MEHEFIN

- Bethel 10 Gweinidog Nasareth 5 Terry Edwards**
- Rehoboth 10 Judith Morris**
- Eglwys Dewi Sant 11 Cymun Bendigaidd**
- Sefydliad y Merched Tal-y-bont Taith i Abaty Ystrad Fflur a the prynhawn**
- Eglwys Dewi Sant 7 Gwasanaeth Hwyrrol**
- Clwb Nos Wener Lowri Evans (Llew Gwyn am 8)**
- Bethel 10 Gwasanaeth Teulu**
- Rehoboth 10 Huw Roderick**
- Eglwys Sant Pedr, Elerch 2.30 Hwyrrol Weddi**
- Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch (Christine Charlton)**
- Caws, Gwin a Chân 7 p.m. yn Eglwys Sant Pedr, Elerch, gyda Chôr Meibion Aberystwyth, Parti Llund Llaw ac artistiaid lleol**
- Bethel 10 Gweinidog (C) Nasareth 10 Eifion Roberts (R)**
- Rehoboth 5 Bugail**
- Eglwys Dewi Sant 11 Gwasanaeth Teuluol i bob oed**
- Cymdeithas Treftadaeth Llangynfelyn 'Storïau o'r Coliseum' (Carrie Canham) 7.30 Llan Fach**

GORFFENNAF

- Clwb Nos Wener Gareth Bonello (Llew Du am 8)**
- Bethel 2 Uno yn Nasareth Nasareth 2 Bugail (C)**
- Rehoboth 5 Bugail (C) Eglwys Sant Pedr, Elerch 2.30 Cymun Bendigaidd**
- Neuadd Goffa Tal-y-bont Recordio Talwrn y Beirdd 7.30.**
- Eglwys Dewi Sant 7 Gwasanaeth Hwyrrol**
- Sioe Ffasiwn yng Ngwesty'r Conrah er budd Gwirfoddolwyr Hosbis yn y Cartref**
- Bethel 2 Gweinidog Nasareth Oedfa'r Ofalaeth Rehoboth Oedfa'r Ofalaeth Eglwys Dewi Sant 11 Cymun Bendigaidd**
- Bethel 10 Gwasanaeth Teulu**
- Bethel 10 Gweinidog (C)**
- Bethel 10 Oedfa Undebol yr Ofalaeth (Noddfa)**

AWST

- Bethel 10 Uno yn Rehoboth**
- Bethel 10 Gweinidog**
- Bethel 5 Uno yn Rehoboth**
- Bethel 10 Gweinidog (C)**

MEDI

- Bethel 10 (Uno yn Nasareth)**

Bistro Gannets

Bwyd a Gwin Da
7 St James Square, Aberystwyth
617164
Ar agor Llun i Sadwrn
12-2 a 6-9.30

Rhian

trin gwallt gartref

25 mlynedd o brofiad gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy

ffôn 832 612
07835 525 553

Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu eich sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech ddanfod y manylion llawn at Carys Briddon, carysbriddon@btinternet.com (01970 832478) o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.

GOLYGYDDION

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Geraint ac Eirian gydag Iolo yn dylunio. Golygyddion mis Medi fydd Gwyn a Fal (832560; golygydd@papurpawb.com), gyda Ceri yn dylunio. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn newyddion fydd dydd Gwener 2 Medi, a bydd y papur ar werth ar 9 Medi.



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru

Y Wobr Bellaf?

Llongyfarchiadau i Carys Briddon, Penrhyn, Tre'r Ddôl ar ennill ar yr ysgrif yn Eisteddfod Trefelin Y Wladfa ym mis Mai. Testun yr ysgrif oedd Hunangofiant Amaethwr. Profodd Carys lwyddiant yn eisteddfodau ledled Cymru ac yn awr gellir ychwanegu De America at y rhestr.

Gwellhad Buan

Dymunwn wellhad buan i Moreen Evans, Halfway, Tre'r-ddôl, sydd wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Bennu yn y Fenni?

Mae siawns y bydd tîm Talwrn y Beirdd Tal-y-bont drwyddo i'r rownd gyn-derfynol ac felly ymhlith y pedwar olaf i ymrafael am le yn y ffeinal yn Eisteddfod Genedlaethol y Fenni. Yn ei gornest nesaf bydd Tal-y-bont yn erbyn tîm Hiraethog a'r darllediad ar nos Sul Mehefin 12fed. Cofiwch wrando!

Croeso

Mae aelod newydd wedi ymuno â theulu Mur Mawr. Croeso mawr i Cai Jacob sy'n frawd bach i Deio ac yn fab i Rebecca ac Arthur.

Pwytho Cain



Llongyfarchiadau mawr i Mrs Betty Jenkins, Pengwern, Tal-y-bont sy'n aelod o'r gangen leol o Ferched y Wawr ar ei llwyddiant yng Ngŵyl Fai Ceredigion a gynhaliwyd yn ddiweddar yn neuadd Felinfach. Llwyddodd i gael pedair gwobr gyntaf – am glustog wedi ei wau, rhywbeth newydd o

Pobl a Phethe



Llongyfarchiadau i Caryl Haf Lewis, Maesgwyn, Tre'r Ddôl, ar ei phriodas â Nathan Howell. Priodwyd y ddau yn fferm Rhosdew, Llanilltud Fawr ac maent wedi ymgartrefu yn Llantrisant.

rywbeth hen, eitem o frodwaith ac eitem 3D,

Bydd dwy eitem sef y brodwaith a'r gwaith 3D yn un o bump cystadleuaeth fydd yn cynrychioli Merched y Wawr Ceredigion yn y Sioe yn Llanelwedd ym mis Gorffennaf. Pob hwyl iddi yno. Nid dyma'r tro cyntaf mae Betty wedi cynrychioli Ceredigion yn y Sioe ond eleni mae wedi torri record – llwyddo i gael dwy eitem i gyrraedd Llanelwedd. Mae'r gangen a'r Pwyllgor Celf a Chrefft yn falch iawn ohoni.

Penblwydd Arbennig

Penblwydd hapus iawn a phob dymuniad da i Olwen Rowlands, 3 Wesley Terrace, Tre Taliesin ar 22 Gorffennaf – pen-blwydd arbennig i ddynes arbennig.

Awdur o Bontgoch

Llongyfarchiadau i Toby Driver, Cwmglo, Bont-goch ar ei gyfrol newydd The Hillforts of Cardigan Bay. Mae'n cynnwys

nifer o safleoedd o fewn ardal Papur Pawb megis Pen Dinas a Phen y Castell yn Elerch, a Chaer Llety Llwyd, ger Tal-y-bont. Mae'n ddarllen difyr iawn. Cyhoeddwyd y gwaith gan Logaston Press am bris o £12.95.



Ennill £100

Llongyfarchiadau i Glwb Gwawr Y Pennau sydd â nifer o aelodau o ardal Papur Pawb, ar ennill gwobr am gyflwyno Rhaglen a Thâl Aelodaeth erbyn y dyddiad cau! Cyflwynwyd y wobwr i Rhian Nelves yng Ngŵyl Haf a Cyfarfod Blynyddol Merched y Wawr ar 21 Mai ym Machynlleth.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Niamh O'Donnell, Maesnant, Tal-y-bont ar gael ei dewis i fynychu Cwrs Cyfansoddi Cenedlaethol yn ystod yr haf. Mae Niamh yn ddisgybl yn Ysgol Gyfun Penweddig ac ar ganol ei harholiadau Lefel A.

Babi newydd

Llongyfarchiadau i Rhys a Trish Huws, Pentrebach ar ddod yn daid a nain unwaith eto gyda geni Evie Haf – plentyn cyntaf i Curig a Laura sy'n byw yng Nghaerdydd.

Cymorth Cristnogol Plwyf Llangynfelyn

Cyfanswm casgliad Cymorth Cristnogol ym mhlwyf Llangynfelyn eleni oedd £121.09. Roedd y trefniadau yng ngofal Carys Briddon ac Owen Jenkins.



Gwasanaeth Cynnal a Chadw Gerddi MYNACH Garden Maintenance

Torri Porfa, Sietynau, Tirlunio a Garddio
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol

Ffoniwch Meirion:
07792457816 / 01974 261758

e-bost:
mynachhandyman@yahoo.com



Brenhines y Sir, Bethan Roberts, yn cael ei choroni gan Lywydd y Dydd, Rhian Evans, Glanrafon.



Cynhaliwyd Rali flynyddol CFFI Ceredigion ar fferm Berthlwyd ar Sadwrn 4ydd o Fehefin. Daeth tyrfa fawr ynghyd i fwynhau'r haul a'r cystadlu. Ar derfyn y dydd, Tregaron oedd yn fuddugol a felly bydd rhaid teithio yno i rali 2017. Rhaid llongyfarch Clwb Tal-y-bont and drefniant hynod effeithiol.



Llywydd y Dydd, Rhian Evans, Glanrafon, yn annerch y dorf.



Rhys Richards, Cadeirydd CFFI Tal-y-bont.



Falyri Jenkins yn beirniadu cystadleuaeth canu pop.



Dewi Jenkins, Tyngraig, Ffermwr Ifanc y Flwyddyn a'i gyfnither, Elli Dafydd, CFFI Bro'r Dderi.



Cynrychiolwyr lleol ar y llwyfan.

icw
Canolfan Yswiriant Cymru
Insurance Centre Wales

yswiriant yn eich milltir sgwâr

Brocer yswiriant masnachol yng Ngorllewin Cymru yw Canolfan Yswiriant Cymru (ICW), cwmni uchelgeisiol ac egwyddorol sydd â chysylltiadau uniongyrchol â chalon y diwydiant yswiriant llewyrchus yn Llundain.

Cysylltwch â ni

☎ 01970 600222

☎ 07904 477796

✉ hello@icw.wales

🐦 @ic_wales

🌐 icw.cymru

Insurance Centre Wales (ICW) is registered by the FCA in England and Wales Firm Reference No. 713385

Hysbyseb gan by Red Squirrel Marketing - www.nutsaboutmarketing.com

Amaethyddiaeth

Cludiant a Cherbydau

Rheoli Gwastraff

Busnesau (bach a mawr)

Bysiau a Thacsis

Landlordiaid



Gosgordd y seremoni.



Mae nhw'n canu "cerdd dant"

Ar adeg ymweliad blynyddol y deintydd â Ysgol Llangynfelyn, ers talwm, byddai'r plant yn canu emynau i foddi "sgrechfeydd".

... rhagor o Rali CFFI



Cyfarchwyr yr ieuencid.



Aeron Williams, Maesymeillion, ar y Ffergi Bach.

Brenhines y Tin Ffoil



Mae Ruth Jên wedi ennill cystadleuaeth i weithio yn un i Stiwdios Canolfan Celfyddydau Aberystwyth am gyfnod o naw mis yn cychwyn yn Ebrill 2016. Roedd yn rhaid i Ruth gyflwyno enghreifftiau o'i gwaith ynghyd â datganiad sut y byddai'r defnydd o'r stiwdio yn cyfrannu at ddatblygiad ei gyrfa. Yn ystod y naw mis nesa bydd Ruth yn canolbwyntio ar themau sy'n hanfodol i'w gwaith sef iaith, traddodiad a diwylliant. Fel man cychwyn bydd yn creu arddangosfa o fewn y stiwdio

gan edrych ar 'Gwlân'. Ei bwriad yw trawsnewid y gofod dros gyfnod o amser gan ddefnyddio chnyfau, gwlân yn ei hanfod ac edrych ar gneifio defaid, nodau clust a'r traddodiadau cymdeithasol sy'n ynghlwm â dyddiau cneifio.

Prif ffocws ei chyfnod yn y stiwdio bydd archwilio syniadau a thechnegau newydd gan greu cysylltiadau gyda'r gymuned leol a cheisio ysbrydoliaeth ohoni.

Llongyfarchiadau mawr. Yr unig anfantais yw y golled o fedru cymeryd cipolwg drwy ffenest y siop i wyllo Ruth wrth ei gwaith!



O'r Senedd

Mae etholiad mis Mai yn teimlo fel amser maith yn ôl bellach, ond hoffwn ddechrau trwy ddiolch i bobl Ceredigion am ymddiried yn of i'w cynrychioli yn y Senedd am y pumed tro.

Mae hi'n anrhydedd enfawr cael fy ail ethol fel Aelod Cynulliad Ceredigion, a hoffwn ddiolch i'r holl wirfoddolwyr a dioddefodd gwynt, glaw a hyd yn oed eira i gefnogi fy ymgyrch, ac am y croeso cynnes a dderbynais ar stepen drws mewn trefi a phentrefi ledled Ceredigion.

Daeth cefnogaeth o bob rhan o'r Sir – Gogledd a De, gwledig a threfol – ac mi fyddaf yn gweithio'n ddiflino i wneud yn siŵr bod anghenion Ceredigion yn cael y sylw y maent yn eu haeddu yn y Cynulliad.

Tasg gyntaf y Cynulliad newydd oedd penodi Llywydd - yr unigolyn sy'n gyfrifol am gadeirio dadleuon yn y Senedd. Roedd hi'n ffrainc cael fy newis am y rôl gan fy nghyd-aelodau, ond yr anrhydedd mwyaf oll oedd cael fy ethol gan bobl Ceredigion i wasanaethu fel eu AC.

Mi fydd fy nyletswyddau lawr yng Nghaerdydd yn newid mymryn yn sgil hyn – dim rhagor o eistedd ar bwyllgorau ar ran Plaid Cymru, na siarad fel Gweinidog Iechyd cysgodol Plaid Cymru mwyach – ond Ceredigion yw fy mlaenoriaeth o hyd.

Byddaf yn parhau i gyflawni fy nyletswyddau etholaethol, ac i hyrwyddo achosion a buddiannau pobl y sir mor ddiwyd ag erioed. Yn wir, un o'm weithredoedd cyntaf fel AC oedd cynnal cymhorthfa ag etholwyr Ceredigion i drafod eu pryderon.

Mae'r uno arfaethedig o Dai Cantref â chymdeithas tai arall - *Wales & West Housing* - yn destun gofid i lawer, ac mae'n amlwg nad oedd tenantiaid, staff, na'r gymuned changach yn ymwybodol o fwriad y Bwrdd.

Mae Tai Cantref yn medru ar nodweddion cymunedol cryf, ac yn gymdeithas gwbl ddwyieithog. Mi fyddai ei uno gyda chymdeithas tai sydd llawer yn fwy ac wedi ei rhedeg o du allan i'r ardal yn peryglu uniondeb a pharhad ei gwaith. Rheolaeth leol sydd angen ar ein tai cymdeithasol, nid cael eu cymryd drosodd gan gwmni mawr allanol.

Mae'n hanfodol felly bod y Gweinidog Tai newydd yn sicrhau bod unrhyw benderfyniad a geir yn diogelu buddiannau tai cymdeithasol yng Ngheredigion.

Elin Jones



BWYD DA ...
CWMNI DA ...

yBlac
TALYBONT

BWYTY A BAR

CINO 1200-230 SWPER NOS 6.00-9.00
CINO SUL 12.00-3.00

AM FWY O FANYLION, BWYDLENNI A CHYNGION
EWCH I'N GWEFAN - yblac.co.uk

Gwelwch chi'n fuan... Cofion Sibn, Catrin a'r tîm

01970 832 555 croeso@yblac.co.uk

Cymdeithas Treftadaeth Llangynfelyn

Nid ar chwarae bach mae rhywun yn mynd ati i gyflwyno 150 mlynedd o hanes mewn awr, ond dyma'r her osododd Eirionedd Baskerville i'w hunan ar Fai 24ain. Hanes a datblygiad y Wladfa Gymreig ym Mhatagonia oedd ei phwnc a, gyda help llawer o hen luniau a mwy o luniau cyfoes, cawsom flas ar y dyddiau anodd cyntaf a'r sefyllfa oedd yn wynebu'r fintai fach o ymfudwyr y Mimosa.

Ond nid hanes yn unig oedd ei thestun, ond darlun o fywyd y Cymry heddiw sydd yn byw eu bywydau mewn gwlad Sbaeneg ei hiaith. Mae Eirionedd wedi ymweld â Phatagonia nifer o weithiau, ac mae ganddi deulu yno, felly mae'n feistes ar ei phwnc, a synnwyd pawb gan eangder ei chof. Roedd yn gwybod enw a hanes bron pawb ym mhob llun. Diolch iddi am noson ddifyr a diddorol.

Yn ein cyfarfod nesaf, ar nos Fawrth, Mehefin 28, bydd Carrie Canham o Amgueddfa Ceredigion yn rhannu rhai 'Straeon o'r Colisewm' gyda ni. Croeso cynnes i pawb (ond peidiwch â disgwyl glywed am daflu Cristnogion i'r llewod – y colisewm arall bydd dan ei sylw).

Merched y Wawr

Gareth Owen oedd gyda ni fis yma. Er wedi ei eni a'i fagu yn Llanuwchllyn fe dreuliodd ei yrfa yn dysgu Celf yn Ysgolion Rhydfelen, Y Berwyn ac Ysgol y Creuddyn Llandudno. Ers ymdeol mae wedi treulio ei amser hamdden yn creu gweithiau celf sydd wedi eu gwreiddio yn ei gariad tuag at Gymru a'i diwylliant, ei hiaith a'i thirlun. Yn ei arddangosfa ddiweddaraf y cariad tuag at ei bentref genedigol, Llan Uwch y llyn sydd wedi cael sylw.

Serch hynny, aeth â ni, Ferched y Wawr, nôl i'r stafell ddosbarth gelf. Cawsom eistedd o gwmpas bwrdd gyda phapur lliw a chrayons ac fe aeth a ni drwy'r broses o dynnu llun o ffol a blodau ynddi. Ar ôl awr gyfforddus dawel yn dilyn cyfarwyddiadau pwylllog Gareth roedd pob un ohonom wedi llwyddo yn rhyfeddol o dda i dynnu llun ffol gron yn llawn blodau lliwgar.

A dyna ni yn ein hoed a'n hamser wedi dysgu am gyfrannedd a llinell, llygad a phersbectif. Mor falch oeddem o gael mynd â'n gwaith celf personol adref i'w roi lan yn y gegin, ar y pentan neu hyd yn oed y tŷ bach. Dyna brofi bod y gallu i dynnu llun ym mhob un ohonom dim ond i ni wrando ar athro da.

K Hughes

Plymio a Gwresogi

Gosod a Theillio Ystafelloedd Ymolchi
Gwasanaeth Boeler Olew

01970 832129
07761 917235

Afiaith

Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Profesiynol
Prydlon • Personol

Martin Davis
Is-y-coed, Tre Talleis, MACHYNLETH
Powys SY20 8JG Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

GOLCHDY LLANBADARN

CYTUNDEB GOLCHI
GWASANAETH GOLCHI
DWFES MAWR
CITS CHWARAEON

JEAN JAMES
Ffôn: 01970 612459

Valrosan, Pwllhobi, Llanbadarn Fawr,
Aberystwyth SY23 3SL



Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Adroddiad o'r prif faterion a drafodwyd
yng nghyfarfodydd mis Mai.

1. Cyfarfod Blynnyddol

Etholwyd Rhian Evans yn Gadeirydd newydd y Cyngor, a Megan Mai yn is-Gadeirydd ar gyfer y flwyddyn 2016/17. Hefyd, fe enwebwyd Bleddyn Huws yn gynrychiolydd y Cyngor ar Bwyllgor y Cylch Meithrin, a Rhian Evans yn gynrychiolydd y Cyngor ar Bwyllgor Ardal Ceredigion Un Llais Cymru. Rhoddodd David Evans, y Cadeirydd ymadawol ddiolch i'r aelodau a'r Clerc am eu cefnogaeth yn ystod y flwyddyn a dymunodd y gorau i'r Cadeirydd newydd, Rhian Evans.

2. Aelod Newydd

Fe enwebwyd David Morris Jones i fod yn aelod newydd o'r Cyngor Cymuned. Fe gyfetholwyd David yn Gyngorydd yn ystod cyfarfod mis Mai. Estynnwyd croeso cynnes iddo a dymunwyd y gorau iddo yn ei rôl newydd.

3. Baw Cŵn

Trafodwyd y broblem barhaol o faw cŵn yn Nhal-y-bont. Cyngorodd Adran Iechyd Amgylcheddol, Cyngor Sir Ceredigion i unigolion gysylltu gyda hwy i adrodd unrhyw broblemau. Nododd yr adran bod adroddiadau yn gryfach gyda lluniau o'r unigolion yn troseddu ac enw'r troseddwr. Ei manylion cyswllt yw: 01545 572105 / envhealth@ceredigion.gov.uk

4. Gosod Mainc – Allt y Crib

Cytunwyd i ysgrifennu at Gyfoeth Naturiol Cymru i ofyn os oes modd gosod meinciau/meinciau picnic yng nghoedwig Allt y Crib. Cytunwyd i dynnu ei sylw at mannau penodol sydd â golygfeydd arbennig/ llefydd gorffwys da.

5. Gohebiaeth: "Action on Hearing Loss, Cymru – Hear to Meet Aberteifi"

Derbyniwyd hysbys ynglŷn a grŵp cymdeithasu i bobl â cholled clyw – mae'n gyfeillgar, hwy ac am ddim. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys sesiynau blasu darllen gwefusau, gwybodaeth ar offer, cyngor ar sut i ymdopi, ayb. Mae'r grŵp yn cwrdd yn Neuadd yr Hen Ysgol St Mary's, Pontycleifion, Aberteifi, SA43 1PE, ar yr ail ddydd Mercher o bob mis, rhwng 2yp i 4yp – Croeso i bawb. Cyfleoedd i wirfoddolwyr hefyd. Cyswllt wch â: Martin Griffiths, Action on Hearing Loss Cymru, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd CF24 5JW / 02920 333034 / 07777 890267 / martin.griffiths@hearingloss.org.uk / Neges destun SMS: 07958 101649.

Cofiwch ymweld â gwefan Papur Pawb

Gwybodaeth am y papur, ei hanes a manylion cysylltu

Hefyd:


- Papur Pawb Sain – i'r rhai sydd â golwg diffygiol
- Tabl amseroedd bysiau yn yr ardal
- Ôl rifynnau'r papur
- a rhagor

Noddwyd y wefan hon gan:
Anthony Motors
Volkswagen



papurpawb.cymru

Mae'r gwenynwr
Wil Griffiths newydd
gyhoeddi cyfrol o
ysgrifau o dan y teitl
Basned o Gawl. Yn
ychwanegol at yr haid
(a haid yw y gair!)
o atgofion am gadw
gwenyn cewch ddarllen
am y beic modur
Royal Enfield 1928, a
rhyfeddod y dannedd
dodi rhegi awtomatig.
Mae un disgrifiad ganddo
sy'n gweddu i'r dim
iddo fe ei hun – *un heb
grwydro mhell o'i fro
enedigol, un a arhosodd
yng ngwynt y tanau
mawn.*



Mae'r gyfrol ar werth yn y
siopau llyfrau lleol am £7 ac fe fydd
holl elw y gwerthiant yn mynd at yr
Hospis Lleol ac Ambiwylans Awyr

Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2016

Llongyfarchiadau i Esther Ifan, Llys Alaw Tal-y-bont ar ennill y
drydedd wobwr yn y gystadleuaeth farddoniaeth blyneddod 12 a
13.


Yn yr un modd da iawn Eysyllt Einion (wyres Robot ac Enid
Gruffudd) ar ennill y wobwr gyntaf yn y gystadleuaeth barddoniaeth
blwyddyn 9.

Roedd Sam Ebenezer yn aelod o bedwarawd o Aelwyd
Llundain a gipiodd y drydedd wobwr yn y gystadleuaeth ar gyfer
ensemble lleisiol.

Da iawn Adran Aberystwyth ar ennill y wobwr gyntaf yng
nghystadleuaeth llwyfannu drama fer o dan 25 oed. Ymhlith yr
actorion roedd Heledd Davies Gwynfryn, Oisín Pennant Penygro,
Bontgoch a Glain Llwyd Llandre.

Enillwyd y Gadair gan Gwynfor Dafydd, disgybl o Ysgol
Llanhari. Wrth gael ei gyfweld yn dilyn y seremoni dywedodd fod
amryw wedi ei ysbrydoli dros y blyneddod a thalodd deyrnged
arbennig i'w athrawes Gymraeg Catrin Rowlands (gynt o Dal-
y-Bont) am ei chefnogaeth a'i chyngor anffaeledig trwy gydol ei
gyfnod fel disgybl yn Llanhari.

Parti Pinc



Y Lolfa

Y Lolfa Cyf. Talybont Ceredigion SY24 5HE

Cyhoeddwy ac argraffwr

Cyfle i weithio yng ngwasg fywiocaf Cymru!

Rheolwr/aig Swyddfa

yn eisiau i groesawu ymwelwyr ac i wneud gwaith
gweinyddol amrywiol. Dyddiad cau 4 Gorffennaf.
Manylion llawn gan Garmon Gruffudd ar garmon@yloffa.com
yloffa.com neu ffoniwch 01970 832 304.

www.yloffa.com



Glanyrafon

Telars
Aliniad Olwyn
Ecsôsts
Batris
Brêcs
Hongiad
Bar tynnu
Gwasanaeth
MOT

HUWLEWISTYRES.COM



Rhodfa'r Parc

Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni
drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan

ALIGNMYCAR.CO.UK

Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.

ABERYSTWYTH 01970 611166 MACHYNLLETH 01654 700000
LLANBED 01570 422221

Garej Davmor



- Petrol a Diesel
- Gwasanaethu, trwsio, MOT a theiars
- Adnewyddu blychau gêr a gosod cydyddion
- Llogi fan a bws mini, gwerthiant ceir
- Siop Gyfleustra drwyddedig

Y garej gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont
01970 832278 www.davmorgarage.co.uk

STORFA CANOLBARTH CYMRU

MID WALES STORAGE

Storfa Cartref a Busnes



Ystafelloedd storio ar gyfer eich anghenion
Monitro Diogelwch 24 awr—Wedi ei wresogi



Boces a bubblewrap ar lein
www.boxshopsupplies.co.uk

Ffon: 01654 703592
www.midwalesstorage.co.uk



Heol Y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ

INVESTORS | BUDSODDWR
IN PEOPLE | MERN POBL

Cylch Meithrin Tal-y-bont

Arolwg ESTYN

Ym mis Mawrth cafodd Cylch Meithrin Tal-y-bont arolygiad gan Estyn. Pleser yw datgan bod perfformiad y lleoliad yn dda. Hyfryd oedd darllen bod gan y Cylch "berthynas waith dda yn bodoli rhwng yr ymarferwyr a'r plant, ymarferwyr yn darparu ystod eang o weithgareddau ysgogol i'r plant, y gymuned yn un hapus a chynhwysol sy'n rhoi blaenoriaeth uchel i les a diogelwch y plant." Cychwyn ardderchog i'r rhai bach ar eu gyrfa addysgiadol a chanmoliaeth llawn haeddiannol i'r staff ymroddgar sef Anti Karren, Anti Lynwen, Anti Ceri, Anti Gaynor ac Anti Vicki. Hoffai'r Pwyllgor ddiolch yn fawr iawn i'r Staff a'r rhieni a fu'n helpu'n ddiwyd gyda'r glanhau, peintio a thaclo o flaen llaw. Os hoffech weld yr adroddiad yn llawn, mae yna gopïau caled ar gael yn y Cylch neu ewch i'r dudalen canlynol ar wefan Estyn: <https://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6679117>

Penillion i'r Leri

Hoffai Staff a Phwyllgor y Cylch Meithrin ddiolch o galon i Fal Jenkins, Medi James a phawb a gynorthwyodd gyda'r noson llwyddiannus yn Y Blac ar nos Wener, 22 Ebrill gyda lawnsiad CD 'Penillion i'r Leri' gyda'r elw a godwyd ar y noson yn mynd i'r Cylch. Diolch yn fawr iawn i bawb a gefnogodd y noson.

Llefydd ar gael

Er gwyboeth, mae yna lefydd ar gael i blant i ddechrau mynychu'r Cylch ym mis Medi. Rydym ar agor Llun – Iau, 9yb-12yp. Os hoffech ragor o fanylion, galwch mewn i'r Cylch Meithrin sydd wedi'i leoli yng nghaban pwrpasol ar dir yr Ysgol Gynradd am sgwrs gydag aelod o staff neu ebostiwhc: cylchmeithrintal-y-bont@hotmail.co.uk

Cartref Tregerddan

Cynhelir y
Barbeciw blynyddol

**Nos Wener
17eg Mehefin
am 6.30**

Mynediad £5
i oedolion
a £2 i blant.

Dathlu Diwrnod
Cenedlaethol
Cartrefi Gofal



**CHWILIO-AM-LE-I-GYNNAL-
CYFARFOD,-CYNGERDD-
NEU-DDIGWYDDIAD-
ARALL?¶**

Mae-gan-Morlan-neuadd-fawr,-
dwy-ystafell-bwyllgor-a-bar-coffi-
cysurus-sy'n-addas-ar-gyfer-pob-
math-o-weithgarwch.-Telerau-
gostyngol-i-grwpiau-cymunedol,-
crefyddol-ac-elusennol.¶

Cysylltwch-am-wybodaeth-bellach:-01970-
617996-neu-morlan.aber@gmail.com¶

Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth SY23 2HH¶
01970-617996; morlan.aber@gmail.com; @CanolfanMorlan¶

Y LLEW GWYN TAL-Y-BONT

Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.

Ar agor bob dydd

Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos 12.00 tan 9.00

Nos Fawrth: Pei a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

Nos Iau: Cyri a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00

(Un cwrs: £7.95 Dau gwrs £9.95)

Ystafelloedd ar gael

01970 832245
garethwhitelion@outlook.com

Y Gair Olaf



Ry'n ni gyd yn tynnu lluniau y dyddiau hyn, ac os ydyn nhw'n ddigon da, mae nhw'n cael eu gosod ar Facebook i eraill eu gweld, eu gwerthfawrogi a'u 'hoffi'. Mae'r cyfan mor rhwydd.

A lan f'ana bydd y llun am byth, ar gael ar draws y byd i unrhyw un ei weld. Gallai fod yn bortread perffaith o fabi'r teulu, neu'n lun o griw ifanc yn cael amser da, rhy dda o bosib, yn dangos rhywun yn gorwedd ar y pafin yn amlwg mewn tipyn o stâd – doniol iawn. Mae'n llun grêt ar gyfer tynnu coes y ffrind pan fydd yn sobor, ac ynghanol yr holl firi, mae'r llun yn hedfan drwy'r ether ar Facebook. Does dim pwynt difaru a'i dynnu oddi ar Facebook, mae'n rhy hwyr, mae wedi mynd fyny fana am byth, ac mae'n bosib i unrhyw un ei ddarganfod.

Os nad yw hynna'n ddigon drwg, beth os fydd rhywrai diegwyddor yn meddwl bod y llun jyst y peth ar gyfer hysbyseb mae nhw wrthi'n ei baratoi. Dyma nhw'n cipio'r llun a'i werthu i'r cleient i hysbysebu rhyw gynnyrch di-chwaeth, neu ar gyfer cefnogi mudiad hynod amheus. Er taw ni dynnodd y llun, ni wedi colli'n hawliau ynddo ac mae pob hawl gydag unrhyw un arall ei gamddefnyddio at ba bynnag bwrpas a hyd yn oed codi tâl amdano – a ni roddodd yr hawl hynny iddyn nhw trwy ei osod ar Facebook yn y lle cyntaf. Faint o broblem yw hyn? Oes ots beth sy'n digwydd i'n ffotograffau ni wir?

Meleri Mair

Iwan Jones

Gwasanaethau Pensaernïol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd,
estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ

helen.iwan@btinternet.com

01970 832760



**Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU**

Gofynnwch am bamffled
rhad ac am ddim

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111



Ydych chi eisiau datblygu diddordebau neu sgiliau newydd,
gweithio tuag at gymhwyster neu wella eich sgiliau ar gyfer y gweithle?

Rydym yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau gan gynnwys:

cyfrifiadura, hel achau, mathemateg, ysgrifennu creadigol, cadw'n heini,
gosod blodau, coginio/pobi a llawer mwy.

Cysylltwch â ni am ragor o wybodaeth:



**Dysgu
Bro
CEREDIGION
Community
Learning**

01970 633540
admin@dysgubro.org.uk
www.dysgubro.org.uk



Ysgol Tal-y-bont



Elusen Macmillan

Roedd hi'n hyfryd i gael groesawu y Parch Andrew Lenny i'r ysgol i gasglu sicc ar gyfer elusen Macmillan. Cafwyd cyflwyniad diddorol iawn am hanes yr elusen a soniwyd am sut fyddai'r arian yn cael ei wario i ofalu am y rhai sy'n dioddef o ganer. Yn y llun y mae plant y Cyngor Ysgol yn cyflwyno'r sicc i Mr Lenny.

Mewn Cymeriad

Roedd hi'n braf cael croesawu plant o ysgol Llangynfelyn ac Ysgol Craig yr Wylfa i wyllo sioe un dyn newydd sbon am Roald Dahl. Roedd y sioe yn rhan o ddathliadau can mlynedd geni'r awdur ac fe gafodd y plant gyfle i gael hwyl gydag Alf, cymeriad lliwgar, diddorol, oedd yn dwlu ar ddarlenn. Yn ei got amryliw unigryw, oedd yn llawn o bocedi ar gyfer ei lyfrau, roedd Alf wrth ei fodd yn rhannu ei gariad tuag at ddarlenn, ac yn datgelu'r anturiaethau sy'n digwydd iddo pan mae'n dechrau darlenn. Cafwyd prynhawn difyr iawn gan bawb yng nghwmni Alf.



Gwersyll yr Urdd Glan-llyn

Un o uchafbwyntiau'r flwyddyn yw cael ymweld ag un o wersylloedd yr Urdd. Eleni aethom gyda phlant ysgol Craig yr Wylfa i Wersyll yr Urdd, Glan-llyn. Bu'r plant yn mwynhau pob mathau o weithgareddau anturus fel adeiladu rafft, y wal ddringo, canwio a'r cwrs rhaffau uchel. Cafwyd hwyl hefyd yn gwylio'r sioe adar ac yn y disgo wrth gwrs. Diolch yn fawr iawn i Urdd Ceredigion am drefnu'r trip ac i staff y Gwersyll am ofalu amdanom. Rwy'n siŵr y bydd gan bawb lawer o atgofion melyn am yr ymweliad.



Mari Arad Goch

Mae Cwmni Theatr Arad Goch yn ymweld yn aml â ni yma yn Ysgol Tal-y-bont. Y tro hwn, Mari ddaeth yma i gynnal gweithdy ar bwysigrwydd bod yn ffrindiau a sut i greu ffrindiau newydd. Rydym yn falch iawn o ddeall y bydd Mari'n dod nol atom eto yn y dyfodol i barhau gyda'r gwaith.



PC Alun

Mae hi bob amser yn braf cael croesawu Pc Alun i'r ysgol. Y tro yma, peryglon ysmegu ac yfed alcohol oedd y pwnc trafod gyda phlant Cyfnod Allweddol 2. Yn y Cyfnod Sylfaen, buodd e'n trafod llefydd diogel i chwarae fel bod pawb yn gallu mwynhau gyda'i gilydd. Diolch yn fawr i chi am y cynghorion doeth.



Trawsgwlad

Ar ddechrau mis Mai bu Megan, Elinor, Elen, Caoimhe a Gethin yn cynrychioli'r ysgol yng nghystadleuaeth traws gwlad cenedlaethol yr Urdd ar Gaeau Blaendolau. Llongyfarchiadau mawr i chi gyd am ymdrech arbennig. Da iawn chi.

Eisteddfod yr Urdd

Llongyfarchiadau mawr i Miriam ac Oisín am gystadlu gydag Adran Tref Aberystwyth yn Eisteddfod yr Urdd yn Y Fflint eleni. Da iawn chi am berfformiadau graenus ac am eich llwyddiant.



Diogelwch y traeth

Yn ystod y mis daeth Tirion a Ieuan atom i drafod pwysigrwydd bod yn ddiogel ar lan y môr. Roedd eu cyflwyniad wedi hoelio sylw'r plant ac fe gafon nhw lawer iawn o wybodaeth am y peryglon o fod yn ddiofod wrth fynd am drip i lan y môr. Ond cafwyd llawer iawn o hwyl hefyd fel y gwelwch o'r llun. Diolch i Ryan, Tomos, Elen a Finlay am helpu.

Mabolgampau a barbeciw'r Ysgol

Cofiwch y bydd mabolgampau'r ysgol yn cael eu cynnal ar ddydd Iau, Gorffennaf 7fed. Fydd y ras gyntaf yn dechrau am 1.30. I ddilyn bydd y barbeciw blynyddol a chyngerdd gadael Blwyddyn 6. Diolch yn fawr i'r Gymdeithas Rien i ac Athrawon am bob cymorth. Croeso i bawb.

Ysgol Llangynfelyn



Llangrannog

Aeth deg o blant hŷn yr ysgol gyda Mrs Davies a Mr Lynch i Wersyll yr Urdd, Llangrannog am dridiau o hwyl. Cafodd y plant gyfle i gymryd rhan mewn amryw o weithgareddau gan gynnwys sgîo, marchogaeth, go-cartio, rhaffau uchel a mynd ar y beiciau cwad. Roedd y tywydd yn braf iawn ac uchafbwynt oedd cerdded lawr i draeth Llangrannog am hufen ia blasus.

Sioe 'Mewn Cymeriad'

Aeth dosbarth Cyfnod Allweddol 2 i weld sioe arbennig am Roald Dahl yn Ysgol Tal-y-bont. Sioe un dyn ydoedd, gydag un actor yn chwarae'r holl rannau. Roedd y sioe yn fywiog iawn a mwynhaodd y plant ddysgu am gymeriadau nofelau Roald Dahl.

Gŵyl Seiclo Aber

Llongyfarchiadau i Dylan Kerridge o Flwyddyn 3 a gymerodd rhan yn y räs feicio i fechgyn Blwyddyn 3 ar y prom yn Aberystwyth yn ystod penwythnos 'Gŵyl Seiclo Aber'. Da iawn ti Dylan!

Barbeciw

Cofiwch ymuno gyda ni yn ein Barbeciw ar nos Fawrth Gorffennaf 5ed am 6 yh.

Ysgol Llangynfelyn



Diwrnod yng Nghoed Tyllwyd

Aeth yr ysgol gyfan draw i Goed Tyllwyd, Llanfarian am ddiwrnod diddorol iawn dan nawdd 'Tir Coed'. Yng nghwmni Jenny Dingle, bu'r plant yn adeiladu cuddfannau yn y coed, yn ffeindio trychfilod, yn edrych am olion moch daear a thostio marshmallows ar y tân. Roedd y gweithgareddau hyn yn cyd-fynd gyda thema Dosbarth Cyfnod Allweddol 2 sef 'Gwersyll Haf' a thema'r Cyfnod Sylfaen sef 'Pethau Bach'.



Lerpwl

Aeth 6 o ddisgyblion yr ysgol, Mrs Nemes a Mr Jones i Lerpwl eto eleni. Ar ôl siwrne hir yn y bws mini, aeth pawb ar y fferi 'Dazzle' ar draws yr afon Merswy i 'Spaceport' sef canolfan wyddoniaeth ryngweithiol am y gofod. Roedd yn le diddorol iawn. Wedyn aethpwyd nôl ar y fferi i ymweld â'r 'U-Boat Story'. Mae llong danfor anferth yno a chafwyd cyfle i weld yr arteffactau o'r tu fewn gan gynnwys peiriant 'Enigma'. Aethpwyd nôl ar y fferi eto wedyn i'r 'Albert Dock' i weld Amgueddfa Lerpwl a chael cyfle i brynu nwyddau yn y siop. Gyda'r nos, roedd hi'n amser Bowllo 10. Roedd yn gystadleuaeth agos iawn rhwng y bechgyn a'r merched ond yn y diwedd y merched enillodd o un pwynt. Cafwyd swper blasus iawn yn 'Frankie and Benny's' cyn mynd nôl i'r gwesty. Y bore canlynol roedd hi'n amser ymweld ag Ysgol Anfield Road am y tro olaf. Roedd hi'n braf iawn gweld yr athrawon a'r plant unwaith eto ar ôl iddynt ddod i Ysgol Llangynfelyn ym mis Medi. Bu'r plant yn cydweithio ar waith celf, chwarae gyda'r plant o'r ysgol ar yr iard a chafwyd cinio blasus yn y ffreutur cyn ffarwelio gyda'n ffrindiau. Galwyd heibio stadiwm pêl-droed Anfield ar y ffordd adref i gael llun yn arbennig i Finn sy'n gefnogwr brwd iawn o dîm pêl-droed Lerpwl. Rydym yn mawr obeithio bydd y cysylltiad yma gydag Ysgol Anfield Roed yn medru parhau gydag ysgolion Tal-y-bont a Chraig yr Wylfa.



RNLI

Daeth Ieuan a Tirion o'r RNLI i'r ysgol i siarad gyda'r plant am ddiogelwch ar y traeth. Dysgodd y plant lawer am ble sy'n ddiogel i nofio, lliwiau a swyddogaeth y baneri ar y traeth, sut i fod yn ofalus yn y tonnau a phwysigrwydd eli haul. Gofynnodd y plant lawer o gwestiynau diddorol i Ieuan a Tirion ac roedd ansawdd cyflwyniadau'r ddau yn arbennig o uchel.

Chwaraeon

PYSGOTA: CERI AC IFAN



Enillwyr cystadleuaeth pysgota parau 'Y Golau Glas' yn Llyn Clywedog, Llanidloes oedd Ceri Jones, Pistyll y Llan, Tal-y-bont a Evan Astley, Y Gorlan, Tal-y-bont gyda'r bag trymaf o bysgod ar y diwrnod. Derbyniodd y ddau dlws a ril pysgota.

EILYDDION YN RHAGORI



Gyda'r tîm cyntaf yn llithro i'r chweched safle yn Adran Gyntaf Cynghrair Cambrian Tyres, Eilyddion Tal-y-bont sy'n hawlio'r clod ar ddiwedd tymor 2015-16. Llwyddodd y tîm i orffen yn yr ail safle yn yr Ail Adran ychydig y tu ôl i'r pencampwyr Llanrhystud. Ond cafodd Tal-y-bont y gorau dros y pencampwyr yn rownd derfynol Cwpan y Gynghrair (ail adran) drwy ennill y tlws gyda buddugoliaeth 2-1 ar faes y Piod, Bow Street. Llongyfarchiadau i'r rheolwyr Keith Hughes a Richard Jones a'r chwaraewyr ar eu llwyddiant.

LLWYDDIANT I GRUFF AR Y Ffordd

Ers ymuno â tîm *Madison Genesis* ar ddechrau'r flwyddyn, mae'r beiciwr proffesiynol o Dal-y-bont, Gruff Lewis, wedi bod yn mwynhau ei dymor gorau erioed.


Yr uchafbwynt hyd yma iddo yn ddi-os oedd sicrhau'r 6ed safle wedi perfformiad dewr a deallus ar ail gymal y *Tour de Yorkshire* ar ddiwedd Ebrill.

Ag yntau yn cystadlu yn erbyn rhai o enwau mawr y byd beicio proffesiynol, llwyddodd i gasglu digon o eiliadau bonws yn ystod y cymal i sicrhau'r crys glas am fod y Prydeiniwr gorau yn y ras ar y diwrnod.

Ac roedd ei ymateb ar ddiwedd y dydd yn adrodd cyfrolau. "O bosibl, hon oedd reid fy mywyd", dywedodd.

Daeth ei lwyddiant gwtu wythnos wedi iddo sicrhau ail yn y *Rutland-Melton Cycle Classic*.

Er taw gweithio dros aelod arall o'r tîm, Alex Blain oedd ei flaenoriaeth, roedd ei ymdrech eithriadol tua diwedd y ras 179 kilometr yn rhy gryf i Blain, a'r peloton.



Gruff yn ei grys glas, a'r Prydeiniwr uchaf ei safle yn y ras, yn ystod y *Tour de Yorkshire*.

Yn agosach i adre, profodd Gruff a'i dim lwyddiant yng nghymal Aberystwyth o'r gyfres *Pearl Izumi Tour Series* ar nos Wener olaf mis Mai.

Er gwaetha'r glaw difrifol a'r ffyrdd llithrig o amgylch y Castell a'r Hen Goleg roedd Gruff ymysg y ceffylau blaen, gan ennill un sprint, a sicrhau'r ail safle i'r tîm wrth i'r gyfres, sy'n cael ei darlledu ar ITV4, gwblhau pump o'r deg cymal.

Pob hwyl gyda gweddill y tymor Gruff!

Arthur Dafis

CAE'R ODYN GALCH

Cynhelir Cyfarfod Blyneddol Cymdeithas Maes Chwarae Cae'r Odyn Galch eleni ar 5 Gorffennaf yn y Llew Gwyn, Tal-y-bont, am 7.30.

Mae'r gymdeithas yn awyddus iawn i ddenu gwirfoddolwyr newydd i gynorthwyo gyda'r gwaith o gynnal y cae.



Gŵyl Pêl-droed Talybont

Maes Chwarae, Cae'r Odyn Galch, Talybont a'r Cylch



Dewis Lwcus £1 yr un **Gwobrau** | £100 | £50 | £25
Bydd bwyd ar gael ar y maes

Dan 7 | Dan 9 | Dan 11 | Dan 12 | Dan 14 | Dan 16 **Dechrau 10am**

Oedolion **£2**

2/7/16

3/7/16



Ysgol 1876 – 2016 Llangynfelyn

ATODIAD PAPUR PAWB

MEHEFIN 2016



Rhai o blant yr ysgol tua 1916, gyda'r prifathro James Jones a'r athrawes [?] Margaretta Jones



Ysgol Llangynfelyn 2016: Cefn: Mr John Lynch (Cynorthwy-ydd Dosbarth), Mrs Rhian Nelves (Pennaeath Cynorthwyol), Seamus Byrne, Asher Wood, Tilly Heathfield, Jasmine Berry, Katy Indeka, Violet Jordan, Elijah Girardi, Finn Langley, Mrs Lynwen Morgan (Athrawes Gyflenwi), Mrs Betsan Llywelyn Jones (Athrawes Cefnogi'r Gymraeg)
Canol: Iwan Foster Leslie, Osian Clark, Hopcyn Cosson, Alice Groves, Noah Berry, Dylan Kerridge
Blaen: Felix Hustings, Siskin Harding Bubbs, Martha Cosson, Maia Kerridge, Oska Tvedt, Amber Lewis (yn absennol Ava Lewis a Joe Lewis)

Diwedd Cyfnod

Mis nesaf bydd ysgol Llangynfelyn yn cau ei drysau am y tro olaf. Penderfynodd *Papur Pawb* y byddai'n briodol i ni gofnodi y digwyddiad blin hwn drwy gynnwys atodiad o luniau ac atgofion.

Er mai yn 1876 yr agorwyd Ysgol Llangynfelyn, roedd ysgolion bach preifat yn bodoli yn y plwyf cyn hynny. Yn ôl un disgybl, John Erasmus Jones, Taliesin, roedd ysgol fechan yn y tŷ drws nesaf i'r swyddfa bost yn ystod yr 1850au. Yr athro oedd hen fwynwr o'r enw James Williams ac yn ôl J E Jones: 'dau beth yn unig a ddysgais... tŷn Twinkle, twinkle little star a pheth oedd giar a cheiliog yn Saesneg.' Roedd ysgolion preifat hefyd am gyfnod yn Nhrefyddol ac yn yr hen gapel Wesle ond roedd yr 'addysg' a gafwyd yn llai na boddhaol. Roedd ysgol dan ofal yr eglwys hefyd wedi'i sefydlu yn y Llan-fach o 1856 ymlaen.

O ganlyniad i Ddeddf Addysg 1870 ffurfiwyd bwrdd lleol er mwyn sefydlu ysgol swyddogol yn y plwyf. Am gyfnod câr plant eu haddysg yn y Llan-fach ond roedd gwir angen adeilad pwrpasol.

Codwyd ysgol newydd ar y safle presennol a'i hagor yn 1876.

Ar un adeg roedd dros 180 o blant ar gofrestr yr ysgol a'r prifathro o 1876 tan 1919 oedd gŵr o'r enw James Jones. Yn y degawdau cynnar ceir hanes am blant yn dioddef o heintiau fel brech yr ieir, y frech ysgarlad a'r darwden (ringworm). Yn 1917 bu farw un plentyn o ddifftheria. Roedd llawer o'r plant hefyd yn colli'r ysgol oherwydd eu bod yn cynorthwyo eu teuluoedd adeg y cynhaef neu'n codi tatws. Roedd hyn yn achosi cryn rwystredigaeth i'r athrawon.

Saesneg oedd cyfrwng yr addysg am ddegawdau a hynny gyda phlant a oedd bron yn ddiethriad yn dod o aelwydydd Cymraeg eu hiaith.

Daeth cenhedlaeth newydd o athrawon disglair i'r ysgol wedi'r Rhyfel Byd Cyntaf, gan gynnwys Katie Isaac, Pen-y-graig (a wasanaethodd am ddeugain mlynedd), Dorothy Owen a Mary Pugh (Loader wedi hynny), a phrifathrawon talentog fel Hugh J Evans. Mae'r tystion yn adrodd eu hanes ac am yr addysg gynhwysfawr a gawsant.



Côr yr ysgol ar y ffordd i eisteddfod Tywyn, 1910

Cynhaliwyd dathliad arbennig i nodi canmlwyddiant yr ysgol yn 1976 (gw. y lluniau) a chyhoeddwyd llyfryn yn adrodd hanes yr ysgol.

Yn negawdau olaf yr ugeinfed ganrif gwelid newidiadau cymdeithasol a chynnydd yn y nifer o blant o aelwydydd di-Gymraeg. Dysgodd llawer ohonynt iaith y nefoedd o dan ofal staff ymroddedig.

Gyda'r nifer o blant yn lleihau, a'r pwysau o ganlyniad i doriadau ariannol gan y llywodraeth yn Llundain, penderfynwyd cau yr ysgol yn 2016. 'Trist' yw disgrifiad syml y pennaeth cynorthwyl presennol, Rhian Nelves, o'r sefyllfa a gall *Papur Pawb* ond ategu hynny.

Gobeithio y bydd y lluniau a'r ysgrifau'n dwyn atgofion melys i'r rhai a fu'n mynychu'r ysgol ac i'r gymuned yn gyffredinol. Hoffem ddiolch i'r cyfranwyr am gynnig eu hatgofion ac am fenthycar lluniau i ni.

G.J.

Golygwyd yr atodiad gan Gwyn Jenkins.
Dyluniwyd gan Ceri Jones,



Plant yr ysgol tua 1910

Atgofion meddyg

Symudodd ein teulu i Taliesin o Lerpwl pan benodwyd fy nhad (a anwyd yn sir Fôn) yn brisiwr tir yng Ngheredigion. Roeddwn yn chwe mlwydd oed a'm chwaer Lesley yn bedair ac yn gyflym iawn daethom yn rhugl yn y Gymraeg. Aeth fy chwaer yn ei blaen i weithio fel cyhoeddwr i BBC Cymru.

Mae f'atgofion o Ysgol Llangynfelyn yn glir fel y grisial – y tri dosbarth, y toiledau awyr agored ar dop y lle chwarae, y llaeth cynnes, a phawb yn canu *Deuaf ataf Iesu* am hanner awr wedi tri i derfynu'r diwrnod. Cofiaf hefyd am ein taith natur heibio fferm Jones y llaeth i astudio'r gwrych - ein gwrych bywyd gwyllt ni. Llai pleserus oedd ymweliad blynyddol fan y deintydd a phawb yn canu emynau i foddï unrhyw waedd!

A'r addysg - y fath addysg a'r fath fraint. Y tri athro Miss Isaac, Miss Owen a'r prifathro Mr Huw Evans. Dyna brifathro perffaith - mwyn, difrifol a charedig. Datblygodd cyfeillgarwch agos rhwng fy rhieni Bob ac Em ac Ann a Megan a chyfeillgarwch agosaf fyth gyda'r meibion Geraint a John Hefin - John Hefin y ffrind bore oes, y ffrind gydol oes a fu farw ddwy flynedd yn ôl.

Euthum i astudio meddygaeth yng Nghaerdydd a Llundain gan arbenigo mewn rhiwmatoleg a'r afiechyd imiwnedd Lupus. Disgrifiais agwedd arbennig o'r afiechyd – *the Hughes Syndrome* a all arwain at strôc a cholli plant newydd anedig. Gweithiais ar ddulliau i drin y cyflyrau hyn drwy ddatblygu prawf gwaed syml.

Yn drist, prin y daw'r cyfle i ddod i Gymru nawr ond llynedd rhoddais ddarlith i'r Gymdeithas Hanes Meddygaeth yn Aberystwyth. Wrth i'r trê - Y Cambrian Coast Express - agosáu at Ynyslas teflais olwg ar draws y gors at Taliesin ac yn yr un cipolwg llifodd yr holl atgofion - ein cartref Hyfrydle, fy ffrind John Hefin, ein cuddfan **ni**, y dringo i fedd Taliesin ac wrth gwrs ysgol fach Llangynfelyn.

Diolch i Huw Evans a'r lleill am y camau cyntaf addysgol – y camau cadarn a oedd yn agoriad ardderchog i fywyd a gyrfa.

Graham Hughes



Prifathro'r ysgol rhwng 1924 a 1941, Dennis Hughes, ynghyd â'r athrawesau, Katie Isaac, Laura Pugh (Loader wedi hymny) a Dorothy Owen.



Dosbarth Miss Katie Isaac, 1951



Trigain mlynedd o wasanaeth

Dechreuais i ddysgu yn Ysgol Llangynfelyn yn 1975. yr adeg yma, Mr Mansel James oedd y prifathro, gyda Miss Llywela Humphreys (Williams wedyn) yn athrawes y babanod. Roedd nifer y plant wedi tyfu, felly rhaid cael athrawes arall, ac yn ddiweddarach ymunodd y diweddar Mr Tom Hughes â'r staff. Dyma'r cyfnod pan oedd dau gaban ar yr iard waelod, a'r Neuadd ar gael i gynnal gweithgareddau.

Pan ddes i yma, roedd pob plentyn yn cael ei ddysgu yn ei famiaith, tipyn o waith i weld bod pob plentyn yn cael chwrae teg, a hefyd ceisio dysgu Cymraeg i'r di-Gymraeg. Braf oedd gweld erbyn i mi ymddeol bod yr ysgol yn categori 'A' a phob plentyn yn cael ei ddysgu drwy'r Gymraeg o'r cyfnod cyntaf.

Wedi i Mr James ymddeol daeth Mr Brian Davies yn brifathro am gyfnod ac yna Mrs Menna Evans. Aeth rhifau'r plant i lawr a dim ond dwy ohonom oedd yna. Yna wedi i'r ddau gaban fynd o'r ysgol, y rhifau'n codi eto, ac un dosbarth yn gorfod defnyddio'r Neuadd. Roedd popeth yn mynd ymlaen yn y Neuadd: cinio, gwasanaeth, ymarfer corff, a'r dosbarth tu ôl i sgrin fawr, a dyna oedd gwaith symud popeth pan oedd eisiau'r Neuadd ar gyfer cyngerdd.

Er na fum yn ddisgybl yn yr ysgol, roeddem yn dilyn ôl traed fy mam oherwydd yn yr ysgol hon bu'r holl deulu (Isaac, Penygraig), ac ambell un o'm cenhedlaeth i am gyfnodau byr. Yn ei plith roedd y diweddar Dic Jones, y prifardd ac archdderwydd, a hefyd fy chwaer yn ystod cyfnod fy ngenedigaeith i. Erbyn i fi ymddeol yn 1991, roedd rhai o'r teulu wedi dysgu yn yr ysgol am 60 o flynyddoedd. Ewyrth i mi, Mr J E Jones, am ddeng mlynedd, Miss Katie Isaac am ddeugain mlynedd a minnau am un ar bymtheg o flynyddoedd. Tipyn o gamp i unrhyw ysgol ei guro.

Myfanwy Rowlands

Yr ysgol yn 1946 gyda'r prifathro Hugh J Evans â'r athrawesau Dorothy Owen a Katie Isaac. Ymhlith y pl. Y rhes gefn: Lewis Oliver, Brian Blackwell, Harry Jones, Desmond Bond, Stanley Wright, Wmffre Roberts, John MacDonald, David MacDonald, ??.

Y drydedd rhes: John Evans, ?

Yr ail res: Reg Jones, ?for MacDonald, ? Erwyd Roberts, Roy Pugh, ?, Rhiannon Roberts, Helen Roberts, N. Brian Jones, ??, Garfield Jones, Graham Hughes, Ritchie Jenkins, David (Defi) Evans.

Y rhes flaen: Gwyn Jones, Ieuan Jones, Gwyn Evans, Eirwyn Jones, Dan Evans, William Jenkins, Iorwerth



Rhai o blant yr ysgol gyda'u bathrawesau Miss Edna Edwards a Miss Laura Pugh, ganol yr 1930au:

Y rhes gefn: Maglona Pugh, Elisabeth Jane Evans, Gwladys James, Gwladys Rhys Hughes, Blodwen Jones,

Y drydedd rhes: Gwyn Bond, John Roberts, John Thomas Jones, E Tudor Pugh, Cecil Phillips, Haydn Jones

Yr ail res: Louie Edwards, Mabel Beechey, Glenys Morgan, Enid West, Gwladys Hughes, Ann M Evans, Ei

Y rhes flaen: Arthur Evans, John Hopkin Evans, Tommy Chase Davies, David Oliver Jones, Mervyn Philli




*Ynith y plant gellir adnabod:
Roberts, Henry Davies, Trevor (Tanllan), W J Edwards,*

Roberts, Muriel Roberts, ?, Pat Pugh, Jane MacDonald,

Iorwerth Edwards



*tu:
en Jones, Nansi Pugh, Mabel Bond
ydn Jones, Leonard Slater, Martha Richards
Evans, Eileen Magee, Mabel Evans
yn Phillips*



Y Prifathro Hugh J Evans a'r athawesau Dorothy Owen a Katie Isaac, tua 1946

Y losin du

Atgofion syml plentyn sydd gennyf o'm hamser yn Ysgol Llangynfelyn yn ystod y pedwar degau o'r ganrif ddiwethaf.

Mr Huw Evans (tad John Hefin Evans) oedd y prifathro gyda Miss Dorothy Owen yn cymryd y dosbarth canol a Miss Katie Isaac yn cymryd dosbarth y babanod.

Nid oes gennyf gof o'm diwrnod cyntaf yn yr ysgol. 'Roedd Carys a Gwenllian, fy chwiorydd yno yn barod, felly mae'n siŵr nad oedd yn ddiwrnod trawmatig iawn i mi. Dim ond croesi'r hewl oedd gennym.

Yr unig gof sydd gennyf o fod yn nosbarth Miss Isaac yw cael eistedd ar ei chôl tra oedd hi'n darllen stori i'r dosbarth.

Byddai Miss Dorothy Owen yn ein dysgu i ddawnsio i gerddoriaeth recordiau a oedd yn cael ei chwarae ar gramoffon. Un o'r rhai gyda chorn hir a handlen i'w weindio hi lan. Byddai honno yn mynd mas o wynt ac yn gwneud sŵn marwnad ryfedd. Miss Owen yn brysio ati i'w chorddi unwaith eto cyn i ninnau fynd mas o wynt. 'Roedd hefyd yn dysgu i ni wniô

Dysgais lawer am natur yn nosbarth Miss Owen. Roeddem yn cael mynd am dro i'r coed, y figyn neu lawr ffordd Tanrallt ar ddiwrnod braf ac yn cael gwersi natur wrth fynd. Gweld gwahanol fath o fwsogl ac edrych ar wahanol flodau a rhisglau'r coed ayb. Diddorol iawn oedd y rhain.

Yr ystafell ganol yn yr ysgol oedd dosbarth Miss Owen. Yma y byddai pawb yn ymgynnull at wahanol weithgareddau a gwasanaethau. 'Roedd grât mawr yno ac yn y gaeaf byddai Mrs Rowlands (mam Olwen), a oedd yn glanhau'r ysgol, yn cynnau tanllwyth o dân i gynhesu'r ysgol gyfan.

Yn yr ystafell hon y byddem i gyd yn ymgynnull pan fyddai'r deintydd ysgolion yn dod yn ei dro. Miss Owen yng ngofal y canu diddiwedd (cael boddi sŵn y creadur druan oedd mewn gyda'r deintydd yn ystafell Mr Huw Evans), a Miss Isaac yn ceisio cysuro pawb oedd yn beichio crio. Rhai yn ceisio edrych yn ddewr ond eraill (fel finnau) yn crynu fel jeli.

Mae gennyf frith gof o ganeuon actol neu ddramâu yn cael eu cynnal o dan hyfforddiant Mr Huw Evans. Miss Owen yn gyfrifol am y canu a'r dawnsio a Miss Isaac yn cadw trefn ar y gwisgo. Un ohonynt oedd 'Hen Fenyw Fach Cydweli'. Fy chwaer, Gwenllian, oedd hi ac wedi ei gwisgo mewn dillad traddodiadol Cymreig gyda'r het a'r gantell uchel ac yn gwisgo clocs go iawn. Cofiaf hyd heddiw am ysu i gael y losin du ar y diwedd ond O! y siom. 'Roedd mor chwerw a diflas - losin go iawn oedd e' nid yr un melyn fel yn *Liquorice Allsorts*.

Cyfnod hapus a di-ofid.

Eiriona Metcalfe

"Give us a gum chum"

Yr oedd yr ail ryfel byd yn dal i rygnu ymlaen pan aeth Mam a fi i'r ysgol am y tro cyntaf. Miss Isaac oedd fy athrawes gyntaf ac fe ddysgodd i mi ysgrifennu a darllen cyn i mi gael mynediad i ddosbarth Miss Owen i ddysgu tablau dau i ddeuddeg a hefyd cael gwybodaeth am yr holl bwysau a mesurau'r system Imperial a oedd yn galluogi fi i wneud s ms. Mrs Griffiths oedd y Brifathrawes amser hynny ond erbyn i mi gyrraedd y dosbarth uchaf, Mr Huw Evans oedd y Prifathro ac fe ddysgodd i ni'r pynciau gramadeg, hanes a daearyddiaeth. Ni allai unrhyw blentyn wedi cael gwell athrawon i'w dywys ar hyd llwybr addysg.

Roedd llawer o bwysau yr adeg hynny yn cael ei rhoi ar ddarllen a dysgu ar gof a hefyd yr oedd yn bwysig, yn enwedig wrth ddysgu mathemateg, bod y disgybl yn deall y pwnc ac nid yn dibynnu ar ryw declyn electroneg i ganfod y canlyniad cywir.

Un o fy hoff lyfrau i yw *Cider with Rosie* ac ynddo mae'r awdur yn coffai ei amser ef yn yr ysgol. Yn wir y mae llawer o'r hyn yr wyf i yn cofio yn cyfateb â phrofiad yr awdur, er yn anffodus ni chefais y cyfle i gael dracht o seidr na chwmni unrhyw Rosie o dan gambo wair! Gan fod yr ysgol wedi ei lleoli uwchlaw'r ffordd fawr, fy fyddem mewn sefyllfa dda yn yr amser chwarae i weld pob peth a oedd yn mynd heibio ac yr wyf yn cofio gweld carafan a sipswn, ambell i drempyn yn mynd heibio, lori lo Tudor Pugh, lori wartheg Jack o Ynys Tudur, Mr Phillips o Dre'rddôl a oedd wedi colli ei goesau yn y rhyfel byd cyntaf yn dod yn ei gadair olwyn. Bydden ni'r bechgyn yn mynd i'w helpu trwy wthio'r gadair olwyn lan y

rhiw. Pryd arall fe fyddem yn gweld y teulu Parry o Dal-y-bont yn cario bara mewn sachau gwynion i'w gwerthu o dŷ i dŷ a hefyd Wmffre'r cigydd o Gwmerfyn yn ei gerbyd yn dod â chig ar gyfer ein cinio dydd Sul. Pob dydd Gwener fe fyddai Mr Wheeler o Aberystwyth yn dod â chyflenwad o bysgod i'w gwerthu o dŷ i dŷ. Y prif atyniad oedd gweld confoi o loris y fyddin yn mynd heibio a fydden ni'r plant yn gweiddi *give us a gum chum* mewn gobaith cael melysion gan y milwyr.

O dro i dro byddaf yn cofio am rai digwyddiadau fel a ganlyn.

Gwraig o'r pentref yn dod i'r ysgol i gwyno am ymddygiad un o'r disgyblion ac yn dweud wrth yr athro, "myn uffarn i os na fydd e yn bihafio fe sbaddai'r diawl bach".

Cofio gweld un o'r Chelsea girls yn llewygu yn y gwres wrth roi gwers ymarfer corff i ni.

Ieu, fy mrawd, wedi chwilio *bullets* go iawn a oedd wedi cael ei taflu i dwll ar Fanc y Neuadd, yn dod â un i'r ysgol ac yn ei tharo yn erbyn carreg nes iddi ffrwydro.

Dau ddyn du yn dod i'r ysgol i gael profiad gwaith – Mr Ingwrobi a Mr Chimwaza. Dau ddyn hoffus iawn a ddiodeffodd ni'r plant yn rhoi ein bysedd drwy eu gwallt cyrliog.

Do cafwyd addysg dda ac fe roddwyd pwyslais ar y ffaith ein bod yn Gymry ac y dylem ymfalchïo yn hynny. Yn anffodus ar ôl mynd i Ysgol Ramadeg Ardwyn teimlwn mai'r nod yno oedd i ni fod yn fwy Seisnigaidd ein hagwedd. Yr wyf yn falch iddynt fethu cyflawni'r nod.

Reg Jones



Datbliad 1976 gyda Myfanwy Rowlands



Dathliad y Canmlwyddiant, 1976, gyda'r prifathro A Manzel James



Dathliad 1976: Mrs Williams, Miss Lillian Edwards, Mrs Katie Pugh, Mrs Tansey, Mrs Ina Tudno Williams, Miss Jennie Pugh yn eu gwisgoedd Fictoriaidaidd.



Dathlu Gŵyl Ddewi 1987, gyda'r brifathrawes Menna Evans a rhai o'r staff.

Be' nes' ti tro hwn?

Wedi canrif a hanner yn galon i'r pentref, bydd chwith iawn gen i feddwl am Ysgol Llangynfelyn yn cau. Ond erys yr atgofion...

Huw Evans oedd y prifathro trwy gydol fy amser i yn yr ysgol, ac fe oedd fy hoff athro. Roedd yn ddyn annwyl ac amryddawn a gymerodd ran lawn ym mywyd y fro. Gyda Mrs Evans, sefydlodd gwmni drama yn Nhaliesin ac mae'n amlwg iddo drosglwyddo ei ddawn i'w fab, y diweddar John Hefin. Mr Evans ddechreuodd, golygodd ac ysgrifennodd y rhan fwyaf o *Lloffion Llangynfelyn*, rhagflaenydd *Papur Pawb* a'r papur bro cyntaf oll. Roedd yn athro dawnus â'r gallu i ysbrydoli'r plant a dod â'r wers yn fyw. Diolch iddo, mae hanes a chwedlau Cymru yn rhan o wead cenedlaethau o blant.

Wrth gwrs, plant yw plant, ac nid oedd pob diwrnod heb ei stormydd. Fel pob ysgol o'r cyfnod, roedd y gansen ar y cwricwlwm pan fo angen. Sawl gwaith yr wythnos byddwn yn cael fy anfon i sefyll y tu allan y dosbarth am ryw ddwli. A'r peth gwaethaf, byddai Mam, cogyddes yr ysgol, yn fy ngweld yn fy nghywilydd. 'O. Ti sy' 'na 'to. Be' nes' ti tro hwn?'

Beth bynnag ddywed gwybodusion am gwricwlwm ehangach, neu ddewisiadau amgen, mewn ysgol fach mi dysgais am draddodiadau'r fro, gwnes ffrindiau oes, ac yna tyfais yn rhan o'r gymuned. Bydd hiraeth a thristwch ar ei hól.

Mai Leeding



Cyngerdd Nadolig y plant Rhagfyr 1988, gyda Louisa Phillips a Myfanwy Rowlands



Y merched yn ei gwisgoedd Cymreig, Dydd Gŵyl Dewi 1994



Dydd Gŵyl Dewi 2012



Carfan 5 bob ochr yr ysgol, Tachwedd 1989, a llwyddodd i gyrraedd roundiau terfynol cystadleuaeth chwaraeon yr Urdd. Roedd saith yn y garfan (William Bamford, Antony Foulkes, Christopher Pugh, Dylan Davies, Antony Phillips, Duncan Bamford, Timmy Smith) ond dim ond chwech yn y llun. Pwy sydd ar goll tybed?

Gair gan y penaethiaid

Ar ran staff presennol Ysgol Llangynfelyn, hoffem ni ddiolch o galon i bawb sydd wedi cefnogi'r ysgol dros y blynyddoedd ac yn enwedig i bawb sydd wedi bod yn gefnogol i'r ymgyrch i gadw'r ysgol ar agor dros y misoedd diwethaf, yn staff, yn rhieni, yn llywodraethwyr, yn ffrindiau ac yn blant. Agorwyd yr ysgol yn 1876 a dros y blynyddoedd mae'r ysgol wedi dathlu llawer o lwyddiannau mewn amryw o feysydd yn lleol a chenedlaethol. Mae'r plant sydd wedi bod yn ddisgyblion yma wedi cael llawer o brofiadau gwerthfawr ac rydym yn gobeithio'n fawr fod ganddynt lawer o atgofion da am yr ysgol.

Hoffem ni fanteisio ar y cyfle hefyd i ddymuno'n dda i bawb sy'n gysylltiedig gyda'r ysgol ar hyn o bryd wrth symud ymlaen ar gyfer y dyfodol. Pob hwyl a llwyddiant i'r holl blant yn eu hysgolion newydd a dymuniadau gorau i'r staff hefyd wrth iddynt barhau gyda'u gyrfaedd.

Mae croeso cynnes i bawb ymuno gyda ni i ddathlu cyfraniad yr ysgol i'r gymuned leol ar nos Fawrth y 5ed o Orffennaf am 6yh. Gobeithiwn yn fawr eich gweld yn yr ysgol ar y noson.

Hefin Jones, Pennaeth, a Rhian Nelmes, Pennaeth Cynorthuyol